

YMATEB A

ADENNILL YR IAITH

Bobi Jones

2013

1

Rhagair

Pan fyddaf yn cyfarfod â'm cyfaill Peter Griffiths, bydd ein sgwrs yn ddi-eithriad yn troi at Ddyfodol yr Iaith. Ar ôl imi sgrifennu'r llyfryn A fydd y Cymry Cymraeg mewn Pryd? ar y Wefan hon, beth amser yn ôl, yr oedd y sgyrsiau hyn gyda Peter wedi troi'n gyfres o lythyrau a oedd yn ail-wau rhai o'r pennau yn y llyfryn blaenorol hwnnw. Peter a awgrymodd y gallwn eu cyhoeddi yn y Cymro. A chan eu bod yn dal yn berthnasol, tybiais y gallwn eu rhoi wedyn yng nghyd-destun y Wefan hon.

I

ADENNILL YR IAITH YN LLEOL

Annwyl Gymro,

Yr oedd yr ymateb i'r Cyfrifiad Iaith i'w ddisgwyl. Diolch fod cynifer o siaradwyr ar ôl. Gwyddom oll wrth gwrs am golledion dybryd. Ond mae yna ryw ychydig o siaradwyr yn cael eu hychwanegu o hyd. Ni buasai hynny wedi digwydd oni bai am y diwylliant protest. Eto, gŵyr pawb fod angen cam cwbl arall. Er bod gan y protestio hwnnw gefndir anrhydeddus o aberthol, nid yw mwyach, fel y mae, yn gallu ateb y broblem gyfoes. Darfu prif swyddogaeth y 'brotest', a daeth yn bryd mwyach wneud y 'gwaith' y ceisir ei osgoi. Ni bydd neb sydd heb ystyried y broblem hon o'r newydd yn gallu'i datrys heddiw.

Bydd protestio go iawn bob amser yn trosglwyddo cyfrifoldeb i eraill. Mae'n arferiad drwg. Nid yw'n gwneud dim i 'adfer' yn uniongyrchol. Rhywun arall sydd i 'wneud', mae arnaf ofn, yn ôl yr athrawiaeth honno, sef y Sefydliad. Oherwydd ffasiwn protestio hyd yn hyn, dyw'r bobl gyffredin eu hun ddim wedi bod yn ffitio yn nhîm y gwaith uniongyrchol ar gyfer 'adennill' difrif. Bellach mae eisiau ychwanegu at hynny ganddynt hwy weithgaredd gwahanol, anodd efallai, ond yr un mor wirfoddol o'r galon.

Ceir ar waith ar hyn o bryd bobl gyflogedig anhepgor fel athrawon, a chyfryngau, ac awdurdodau sydd (ym mryd rhai) i fod i wneud popeth yn yr adfer (wedi'r hen brotestio gynt). Yn aml, mae'r rheina'n wych. Ond mae yna ddihangfa i bobl gyffredin yn

y fan yna rhag wynebu'r broblem hon yn blwmp ac yn blaen. Hwyrfrydig weithiau yw pobl gyflogedig i gydweithio'n wylaidd â phobl wirfoddol.

A'r un modd gyda Chadw. Y ddau beth yna, Protestio a Chadw, a wnaeth y Cymry Cymraeg brwd dros y blynyddoedd diwethaf. Ond graddol golli tir yw hanes llawer o'r Eisteddfodau, Gigiau, Dramâu, Corau a.y.b.. Encilio yw hanes Cadw bellach er gwyched y bo. Drwy fod mor rhinweddol, hawdd y gellir ein twyllo'n hunain ein bod yn adennill, er nad ydym yn gwneud y dasg werthfawr yn y fan yna o adfer uniongyrchol.

Bu Protest a Chadw yn gefndir cwbl angenrheidiol i adennill yr iaith. Cafwyd llawer o weithredu Symbolaidd hefyd. Ond ni wna'r tro inni ddibynnu ar hynny mwyach i lwyddo. Daethom i Drobwynt realistig. Mae'n bryd wynebu calon y broblem.

Yr hyn sy'n rhoi calon i ddyn yw gweld ambell ardal annisgwyl iawn yn ymroi, nid i edrych yn ôl – ond i adennill yn uniongyrchol. Maent yn codi'n gyfoes unplyg wirfoddol i'r her heddiw. Mae ambell ardal fel Llan-rug yn mynnu croesawu pawb sy'n dod i'r fro, nid er mwyn bod yn neis (er eu bod yn gweithredu'n neis), ond er mwyn meithrin meddylfryd o adennill unplyg cyson. Helpant fewnfudwyr drwy'u hennill i gydweithredu'n ymarferol. Gwn am ddwy ardal yng Ngheredigion lle y ceir cnewyllyn o adennillwyr unplyg effeithiol ymhlith oedolion. Ond prin yw lleoedd felly.

Pe bai Cymry Cymraeg sy'n teimlo'n ddigalon yn rhoi awr yr wythnos – yn uniongyrchol – i gynnal dysgwyr (megis yn CYD), gellid meithrin sylfaen feddyliol hollol newydd ar raddfa genedlaethol. Lledu'r arferiad da yw'r angen. O brofiad personol, fe alla'i eich sicrhau fod hyn yn rhoi pleser enfawr wrth weld dysgwyr yn dod yn rhugl ac yn ffrindiau yn y broses. Buwyd yng Nghymru yn ymroi'n rhy hir gyda Statws a Deddfu swyddogol fel arweiniad anuniongyrchol i'r adennill. Mae'r gwaith yn fwy ymarferol o lawer. Mae pawb yn adnabod ei fro ei hun i raddau. Gwn am sawl capel Cymraeg sy'n helpu dysgwyr drwy gynnal sgwrs a choffi un Sadwrn y mis. Gwn am Ferched y Wawr mewn ambell i le yn gweithredu'n uniongyrchol yn y maes. Gwn am arbrofi'n gyson yn yr Urdd. Gwn am groeso aelodau Edward Llwyd i ddysgwyr ymuno yn eu Sadyrnau hwy. Mae sawl ffordd i gael Wil i'w wely. Gellid cydlynu llawer mwy. Meithrin cyfundrefn wirfoddol yw'r unig fframwaith cadarnhaol i arwain cynllun cyfansawdd i'r

genedl. Bydd yn anodd. Ond gall lwyddo, yn arbennig os cyfyd *cyfres o grwpiau difrif gwirfoddol unwaith yr wythnos*.

Unigolion brwdfrydig Cymraeg sydd eisiau arnom bellach i siarad ag unigolion o ddysgwyr. Gallant newid cymunedau.

II

ADENNILL YR IAITH YN GENEDLAETHOL

Heblaw *trefniant rheolaidd* hefyd ar raddfa leol, ni bydd rhai datblygiadau uniongyrchol o grwpiau lleol yn ddigonol (o safbwynt hysbysebu a sicrhau llediad o wybodaeth ac arolygu lleoliad cynnydd). Mae'n amlwg bod angen Cynllun Cydlynu Amlochrog Cenedlaethol i adennill canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Ni allwn adael *mudiad* difrif i siawns nac i batrwm unigolyddol gwasgar. Ac nid rhes o weithgareddau gwahân yw ystyr hynny, ond cyfuno i symud yn rymus mewn modd cydweithredol, bawb â'i gyfraniad priodol. Sef *Cynllun Newydd Ystyriol Ymarferol Crwn*.

Enwais y gwirfoddoli allweddol wrth sôn am 'Adennill yr Iaith yn Lleol'. Dyna sy'n gorfod bod ar flaen y gad. Bu ar goll bron. Ond ceisiaf esbonio'n ychwanegol beth a olygaf wrth *fframwaith proffesiynol*, a sut y byddai'n cydlynu. Y tu mewn i'r fframwaith hwnnw o gydlyniad, byddai'r arweinwyr lleol yn ymwybod fod tyfu ewyllys y genedl yn nod sefydlog a chytûn.

1. Ar flaen y gad, wrth gwrs, rhaid sicrhau rhwydwaith o gyfarfodydd lleol coffi a sgwrs, a gweithgareddau i Oedolion. Hynny ynghyd â grwpiau gwirfoddol eraill o'r fath mewn llyfrgelloedd, capeli, a mudiadau deinamig eraill fel Merched y Wawr, yr Urdd, Edward Llwyd. Dyma'r blaen anhepgor. Gall pawb brwd gymryd rhan yn hyn.

2. Rhaid datblygu gwaith gwych y Canolfannau Iaith. Hwyl sy'n darparu asgwrn cefn y dosbarthiadau sefydledig ynghyd â'u gweithgareddau i Oedolion. Hynny ynghyd ag un *Ganolfan Ymchwil* i'r genedl – i baratoi deunyddiau ar gyfer oedolion a phlant, bob amser ar gyfer esgor ar wersi ymarferol ac adnoddau yn y pen draw. Caffer cyswllt gwell rhyngddynt a all ricriwtio grwpiau sgwrs a choffi. Ond mae angen asio'n gadarn y sector gwirfoddol wrth gynigion eglur o gydweithredu hyddysg â'r grwpiau ymddiddan.

3. Yn y sector statudol mewn Addysg, dylid gwella o hyd gysondeb y trefnu parhaol newydd o sefydlu'n flynyddol ysgolion statudol ychwanegol: (a) meithrin (b) cynradd (c) uwchradd (ch) colegau a phrifysgolion. Mae angen gwell arweiniad o hyd ar lefel Llywodraeth, Senedd, Awdurdod Addysg a Rhieni. A gwella'r adnoddau iddynt. Nid

ydyd eto wedi codi'r morâl angenrheidiol ddigon. Mae peth creadigol yn digwydd weithiau; ond mor brin. (Pe gallem hyrwyddo Mudiad i Oedolion i gadarnhau'r symudiad hwnnw, fe gaem grwpiau ymddiddan i rieni hefyd, yn ddiau, o fewn yr ysgolion.) Ni ddylem orbrisio gwerth y sector statudol: nid ydynt yn ddibynnol, oherwydd ewylllys eithaf llipa'r plant i siarad yr iaith yn wirfoddol. Ni ddylem isbrisio'r statudol chwaith: heb fframwaith o addysg swyddogol yn yr iaith, ni ellir datblygu sefydlogrwydd normal i sefyllfa'r iaith.

4. Cefndirol werthfawr yn unig yw (a) Comisiynydd a Statws yr Iaith. Ond, gyda gweledigaeth, fe all hynny gydweithredu â'r sector adennill gwirfoddol. (b) Asiantaeth yr Iaith (yn lle'r Bwrdd): deil i weithredu fwyfwy fel asiantaeth gwybodaeth, hyrwyddo cyfieithu a Chymraeg cyhoeddus, cynghori ynghylch y dulliau o ddefnyddio'r iaith yn y sectorau preifat a gwirfoddol yn ogystal ag yn y gwasanaethau cenedlaethol; a gweithreda fel Canolfan Gwybodaeth ar gyfer pob ymholiad ieithyddol. Ni allodd y Bwrdd erioed ddeall yr angen proffesiynol sydd i fod ar gyfer *gwirfoddoldeb*, na'r *angen am ymchwil*. (c) Mentrau Iaith a'r sefydliadau sy'n canoli ar ddiddanwch a Chadw yn y cymunedau Cymraeg. Datblyger polisi cyhoeddusrwydd trefnus (gan gynnwys y We). Wrth gynnal hyrwyddwyr diwylliant Cymraeg lleol, cawsant y llwyddiant mwyaf hyd yn hyn mewn 'Digwyddiadau'. (ch) Teledu, a diddanwch yn gyffredinol; datblyger polisi ymwybodol i adeiladu gwybodaeth y genedl am hanes, tiriogaeth, gwyliau, sefydliadau, a'i phobl ym mhob sector, gyda rhaglenni cyson am y gwaith gwasgaredig o adennill yr iaith. Unwaith eto, byddai rhannu'u gwybodaeth am gyfleoedd cydweithredu â'r dosbarthiadau a'r grwpiau coffi yn hanfodol. Mae polisi darlledu a theledu yn gofyn cynllunio amlwedd, ac nid diddanwch di-drefn yw'r ateb. Trafferth y cyfryngau yw'r diffyg cefndir mewn cynghori ieithyddol proffesiynol; ac atyniad y dull anarchaidd sydyn.

Cynhalier Fforwm Blynyddol yn Adran y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi'i benodoli i'r Adennill Cadarnhaol ymhlith Oedolion. Gellid clywed yno adroddiadau o'u gwaith gan wahanol ymroddwyr a thrafod datblygiadau i'r dyfodol, yn arbennig i'r rhai sydd wedi gorffen addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai cyfle i'r grwpiau gwirfoddol oll yno gymharu nodiadau ym myd Oedolion. Gweithredai fel ffocws ac

ysgogiad datblygiad i'r gwaith gwirfoddol. Ac adnewyddda'n flynyddol y pwyslais hwnnw.

Dyna ymgais eithaf bras i symud cydlynid fframwaith cenedlaethol yn ei flaen. Gellir gweld wrth osod siâp o'r fath yn newydd gydlynol gyflawn fel hyn beth y gallai *pob unigolyn* yng Nghymru ei wneud o ran cyfrannu potensial i'w symudiad cadarnhaol. Ar wahân i hynny, yr ydym yn mynd rhagom yn ditbitlyd. Pe bai'r newid hwnnw'n egnïol, fe sylwem ar ryng-hysbysebu cytûn mewn cyhoeddusrwydd a mwy o gydweithrediad rhwng y Mentrau, Dosbarthiadau, Grwpiau Sgwrs a Choffi, a'r ysgolion, yn lle sarnu ar draed ei gilydd, fel y byddent am gryfhau ei gilydd gyda chyd-wybodaeth a chyd-gyfarfod i gytuno ar hyn mewn Fforwm Iaith (dibrottest) yn flynyddol i drafod gwelliannau. Ond wrth edrych yn ôl ar y nodyn hwn, yr wyf yn gweld un perygl cyson: wrth ddechrau rhestru cynhwysion mudiad o'r fath, gall amlhau a gwasgaru'r gweithgareddau osgoi'r UN PETH. Y glyniad a'r ymwthiad, yr arweiniad a'r grym canolog yw'r grwpiau coffi wythnosol, mae'n debyg, ynghyd â darparu canolbwynt i atgoffa'n gilydd mai Adennill yw'r unig nod, nid statws cyfyngedig.

III

Rhestrais byramid y sector ailadeiladu iaith. Cyfeiriais at y Comisiynydd. A gwn nad ailadeiladu'r iaith yw ei swydd. Ffittiodd y swydd bwysig hon o fewn Sefydliad parod ar gefndir protest. Ac aeth Statws ei hun yn ganolog iddi, heb sylweddoliad byw o'r Gwirfoddol. Ni raid i'r Weledigaeth adenillol fod yn esgeulus o'r darlun cyflawn; ac yn arbennig o'r rhan bwysicaf yn y darlun. Mae tuedd i'r Wasg ac i Brotestwyr confensiynol lwytho swydd y Comisiynydd â gormod o ddisgwyliadau. Diau ei fod yn wasanaeth arwyddocaol dros ben. Ond fe'i cyfyngir i statws, y Gymraeg yn gyhoeddus, a'i swyddogaeth o fewn y Sefydliad, a'r rheoliadau cyfreithiol sydd ynglŷn â hi. Hynny yw, dilynwyd gan yr awdurdodau bwyslais annigonol Saunders Lewis wrth edrych tua'r dyfodol. Yn y pen draw, y Gwirfoddoli Adenillol yw'r unig obaith i'r Comisiynydd.

Tueddir o'i herwydd ar hyn o bryd i ystyried o hyd fod y 'nifer' o siaradwyr a'r Cyfrifiad yn dibynnu ar y gwaith proffesiynol. Os yw'r ffigurau ar i lawr, y Comisiynydd felly sy'n ei chael hi. Camddealltwriaeth yw hyn. Y diffyg cynllun catholig sydd ar fai.

At ei gilydd, nid wyf yn gweld fawr annisgwyl o'i le o fewn cyfyngiadau anochel o'r fath i'r Swyddogion oll ar hyn o bryd. Mae'r gwaith yn werthfawr ac yn onest glodfawr ar lawer cyfrif. Ond ni chynhwyswyd ystyriaeth gall o sector y Gwirfoddol ewyllysgar yn ddigon amlwg ymwybodol. Ac y mae i Adennill yr Iaith yn ei holl amlochredd, le yn y weledigaeth gron ynghylch y dyfodol, a'i bod yn wir angenrheidiol wrth gynghori ar flaenoriaethau, a gweld lle pob un o fewn y darlun cyfan hwnnw. Mae llewyrch gwirfoddol yn eithriadol o arwyddocaol ar gyfer Statws; a buwyd yn ddall.

Yr wyf yn credu bod angen i'r Comisiynydd, felly, fel pawb sy'n *arwain* yn ymgyrch yr iaith, wneud amser ei hun i fod yn arweinydd gwirfoddol hefyd mewn grŵp CYD. Mae gwaith mor ddistadl yn swnio islaw urddas. *Ond yn y pen draw, ymroddiad ymarferol a gweithredu unplyg i hyrwyddo siarad gan oedolion yw'r pwynt arweiniol adenillol. Hyn fydd yn goleuo'r Weledigaeth.* Dyma'r lle y profir seicoleg, natur y dasg, a'i phroblemau. Dylai arweinydd pob cylch gweithgaredd o blaid yr iaith – Comisiynydd, Cyfarwyddwr Asiantaeth yr Iaith, Cyfarwyddydd pob Canolfan Iaith yn y Brifysgol, Ysgrifennydd pob Menter Iaith, Cadeirydd pob Pwyllgor Addysg, Gweinidog Addysg ac

Iaith, ac yn y blaen – fod yn aelodau di-dâl ymarferol o grŵp CYD rywle. Dyna'r ffordd nes at y gwreiddiau i brofi arweiniad drwy ysbrydoliaeth a baich ymarfer Adeniliad yr Iaith. Profir arweinwyr pan ddônt yn weision. Dyna'r ffordd i'r Gwirfoddol fod yn ganolog.

Os oes bai yn y dyfodol ar y Cyfrifiad nesaf, bydd yn gorwedd yn grwn ar y ffordd yr ymagweddir ac y gweithredir CYD. Diau fod amllder o agweddau ar y cyfrifoldeb o adennill yr iaith. Y mae a wnelom â phob carfan ar Gymdeithas. Ond ar y bont rhwng dysgwyr sy'n dechrau ar ddefnyddio'r iaith ac yna'n symud allan i'r gymdeithas y ceir y man cyfarfod i bawb i fod yn ymwybodol o waith gwirfoddol, uniongyrchol yn CYD. Yn llwyddiant neu beidio CYD y profir gobaith sicr y dyfodol. Os yw hyn yn ymddangos i'r cyhoedd yn ddistadl, yn sicr bydd yn glod i'r sawl sy'n mawrygu'r distadl hwnnw. Yn achos Cyd, os llwyddwn i gael arweiniad syml gan y bobl a nodais i, rwy'n credu y gall y dilynwyr arweiniol yn eu corneli bach ledled y wlad godi'u pennau mewn balchder a gobaith. Na reder rhag yr amlwg.

Hawdd dweud mai 'Ysgolion Cymraeg neu Ysgolion Dwyieithog i holl blant Cymru' yw'r ateb parod i gynyddu'r gallu i siarad yr iaith. Hawdd cytuno. Ond anos wrth gwrs yw ennill plant i *ddefnyddio'r* iaith. Ac anos hefyd yw ennill rhyw fath o farn gyhoeddus ymhlith rhieni, ac adeiladu morâl. Mae adeiladu Cymreictod Addysg yr un mor rhwydd (a gwan) â deddf. Hawdd deddfu heb ennill hoffter nac ewyllys: anos ennill ufudd-dod ym maes iaith. Mae'r gwendid yn yr ysgolion yn cyfateb yn fras i wendid y Comisiynydd. Cafwyd Deddfau ac Ysgolion Gwyddeleg gorfodol yn yr Iwerddon rif y gwllith. Ond yng Nghymru, Siaradwyr Cymraeg Brwd cyffredin (sy'n ymroddi ymhlith oedolion i gymdeithasu) yw'r gwasanaeth *uniongyrchol* y mae ei angen arnom ni. Meithrinwyd yn hytrach y seicoleg gymdeithasol anuniongyrchol, ac aethpwyd â'r datblygiad yn rhy anunion, allan o ddwylo'r Gwirfoddol.

IV

ADENNILL YR IAITH YN DECHNEGOL

Yn fy llythyr ar 'Adennill yr Iaith yn Lleol', bûm yn dadlau mai *mudiad gwirfoddol* o Gymry brwd sy'n gorfod lledu'r Adennill. Bydd felly gyfrifoldeb o fewn cyrraedd pob un o'r cyhoedd. Bûm yn sôn hefyd am 'bobl y sgwrs a'r coffi' mewn mannau gwasgaredig. Ond gŵyr pawb na ddylid disgwyl efallai i neb lleol wneud mwy na chydymddiddan â'r dysgwyr. Dyna ynddo'i hun gam aruthr ymlaen. Er hynny, er gwaethaf y swildod, y maent yn ddiarwybod yn gwneud mwy na sgysio yn eu bröydd, am eu bod hefyd yn adeiladu ewyllys a diddordeb ein pobl. Ond amddifad yw pob mudiad iaith amaturaidd o'r fath os na cheir cefnogaeth academaidd gan ymchwil o'r radd flaenaf; ac os na chaiff y grwpiau siarad eu bwydo'n drefnus gan y *dosbarthiadau*.

Bydd yn rhaid i'r athrawon ail iaith gael llawer mwy o fechgyn a merched yn yr ystafell gefn sydd â'u bryd ar yr ymarfer. Mae angen i'r 'swyddogol' adnabod yr 'answyddogol'.

Yn yr ail lythyr, 'Adennill yr Iaith yn Genedlaethol', bwriais olwg dros y cydlyniad mwy 'swyddogol' a chyffredinol a geir eisoes yn botensial. Crybwyllais felly y *sector statudol* mewn addysgu, yn ogystal â'r dosbarthiadau i oedolion. Bu gormod o fylchau er hynny yng nghynlluniau'r gorffennol, oherwydd canolbwyntio ar Statws. Mae angen i'r Answyddogol a'r Swyddogol wybod am ei gilydd.

Ni ddisgwylir sut bynnag i bobl gyffredin hel gwybodaeth ynghylch y dulliau technegol o wella'r adennill. Ond gwyddant hwy'n burion y bydd yn rhaid i Gynllun Iaith i'r Genedl feddwl am rai agweddau sy'n broffesiynol, yn arbenigol, ac yn dechnegol. Ymhlith yr amllder hwn, y mae yna un sector arall, yn allweddol, sydd ar ei hôl. A charwn ddychwelyd yn awr i'r un pwynt hwnnw, sy'n hanfodol. *Y Ganolfan Ymchwil* y tu ôl. Sector yw a esgeuluswyd oherwydd bod bob amser Argyfwng yn y tir, bob amser Brys. A'r canlyniad yw bod y gwella mewn paratoi Adnoddau wedi dioddef yn enbyd.

Bid siŵr, ni wadai neb nad oes eisiau brys. Os ydym o ddifri, mae angen defnyddiau gwell o lawer ar gyfer adfer yr Iaith yn fuan. Cawsom lawer eisoes o athrawon ymroddedig a dawnus. Cawsom ganolfannau dysgu i oedolion, yn drefnus ac yn unplyg. Cawsom gyrsiau ar frys sy'n gwneud y tro i lenwi bwlch ar hyn o bryd nes cael defnyddiau graddedig proffesiynol. Cawsom lawer. Cawsom fywiogrwydd symud, gweiddi, canu, dawnasio. Do. Arafer yn awr. Mae fframwaith blaen y gad yno'n barod; ag un eithriad – yn yr ystafell gefn – mae yna un gwacter enfawr. Trefn.

*Nid oes gennym Ganolfan Ymchwil eto o ansawdd rhyngwladol y tu ôl (a) i baratoi defnyddiau graddedig yn ôl **Cynllun cyfansawdd**, na (b) i lunio Methodoleg ddysgu addas i anian yr iaith, nac (c) i ymchwilio ar ricriwtio'r sector gwirfoddol, nac (ch) i sefydlogi'n amgenach ddefnydd o'r iaith lafar safonol i ddysgwyr. ('Cymraeg yr Hewl' mewn trefn.)*

Mae hyn yn ymddangos yn bwnc technegol iawn. Ac felly y mae. Mae'n gwbl anaddas ar gyfer llythyr i gyfaill fel hyn. Ond ni ellir ei osgoi: mae eisiau dweud rhai pethau'n blwmp ac yn blaen i awgrymu'r math o broblem sy'n disgwyl ateb hanfodol.

Os mai siarad gwirfoddol rhydd yw'r cynnyrch yn y pen draw, mae angen trefn broffesiynol y tu ôl i arwain ato. Golyga hyn – yn syml – well method llafar holi-ac-ateb. Mae angen darparu grid holi yn ôl cwestiynau cytundeb a gwybodaeth. Bydd gennym ddosbarthiad manwl (yn ôl athrylith y Gymraeg) i broblem YES yn raddedig yn ôl fframwaith araf a chwbl gyflawn. Mae hyn yn bwynt canolog. Dyma gyfrinach agor patrwm o adeiladu cyrsiau drwy gydnabod peth o arbenigrwydd ein hiaith. Bydd eisiau 'sefydlogi' a chydlynu'r iaith safonol. Bydd rhaid dosbarthu a grwpio geirfa yn well yn ôl sefyllfaoedd cynyddol. Bydd dosbarthiad llawer mwy cyflawn o Ymarferion ar gyfer llunio cyrsiau, yn ôl cystrawennau a threigladau yn eu lle. Bydd angen cyfarwyddyd syml strwythuredig ar adeiladu gwersi o fathau gwahanol. Gellir y cwbl drwy wybodaeth dechnegol yn yr ystafell gefn. Mae eisiau rhoi'r iaith at ei gilydd mewn modd mwy cynlluniedig.

Hynny yw, cyn rhoi cyrsiau at ei gilydd, mae angen Ymchwil – nid ar 'agweddau pobl at yr iaith', nid 'ystadegau' am hyn a'r llall (fel pe bai hynny'n gymorth i adnabod

perthnasoedd o fewn iaith), ond ar ddefnyddiau graddedig a fydd yn adennill yn ymarferol ar y ffâs. Hyn a rydd barch a hyder i fudiad. Ni ellir mesur dim na hel ystadegau di-rif nes cael callineb gweithredol i'w fesur.

Ar y 'cyfryngau' wrth gwrs, anelwyd at ddiddanwch. Ni fu yno ddigon o gefndir academiaidd. Ni chafwyd gennym yng Nghymru arbenigwyr a hyfforddwyd mewn un o ganolfannau mwyaf blaenllaw a nodedig a noddedig yn y byd. Bodlonwyd yma ar chwarae. Bodlonwyd ar arwyneboldeb eithafol. A gaf ddweud gyda phob difrifwch fy mod yn deall yn burion yr angen dirfawr am ddifyrrwch ysgafn effeithiol? Credaf fod yna rai cyfresi sy'n rhoi hwyl am orig, dadlennwyd doniau unigol, a gwn fod llawer o ddysgwyr wedi cael pleser ac ysbrydoliaeth (yn arbennig y dechreuwyr). Ond mae'r teneurwydd gwybodaeth dechnegol sydd y tu ôl i lawer iawn o agweddau ar y cyrsiau mor drist o arwynebol, fel y mae'r cyfle'n cael ei golli bob blwyddyn. Nid y paratowyr na'r cyflwynwyr o fewn y rhaglenni hyn oll sydd ar fai, ond y diffyg anhapus yn yr ymchwil a osgoir y tu ôl. Rhoddir gormod o argraff mai chwarae plant yw paratoi proffesiynol ar frys ym maes dysgu'r Gymraeg ar draws y sbectwm. Mae'n rhaid gwneud rhyw ystumiau a chael hwyl, meddant, wrth reswm. Ond pa werth gwastraffu'r amser a'r pres onis gwneir yn iawn?

[Helaethir ar agweddau technegol y gweddau gwahanol hyn, ar y Wefan hon yn 'Iaith'. *A fydd y Cymry Cymraeg mewn pryd?* yw enw'r llyfryn yno.]

TRI PHRAWF ADENNILL IAITH

Mewn pedwar llythyr ceisiwyd ateb tri chwestiwn sy'n dibynnu ar ei gilydd. Yn gyntaf, beth i'w wneud yn lleol wirfoddol er mwyn *adennill* yr iaith? Ac yn ail, beth i'w wneud yn broffesiynol yn y *cydlynu cenedlaethol*? Yn drydydd sut y mae datrys y problemau *technegol* pwysicaf? Undod, o raid, yw'r tri os byddant yn llwyddiant. Os na chawn y rhain ynghyd mewn symudiad poblogaidd, caiff Cymru fustachu yn ôl ei harfer, ond methiant fydd ei rhan. Dyma dri mesur (newydd) hollol angenrheidiol y gellir mesur difrifoldeb y Cymry brwd wrthynt. A'r union dri hyn yw'r rhai nad ydynt am eu clywed.

Tair gwedd ydynt ar y paratoi sydd eisoes yn isymwybod y Cymry difrif ac yn galw am eu cydlynu.

Pan fydd y Cymry brwd o'r diwedd wedi sefydlu *canghennau gwirfoddol* sefydlog i ddysgwyr ymarfer siarad uwchben coffi, ym mhob tref a phentref sylweddol, **dyna'r arwydd cyntaf** y bydd yr ennill wedi'i warantu. Bydd difrifoldeb wedi'i sylweddoli. Mae eisiau sicrhau bod rhywbeth cwbl ymarferol **ar gael** i'w wneud yn effeithiol **gan bob person cyffredin yng Nghymru**. Bydd hynny'n Gymru Newydd. A math o ryddid eisoes.

Beth maen nhw'n ei rannu fan yna yn y caffi bob wythnos? Dim ond geiriau Cymraeg. Ond fe welson nhw ei bod yn bosib mewn meicrocosm i dri neu bedwar o Gymry Cymraeg ym mhob ardal sefydlu grŵp gwirfoddol o'r fath i sgwrsio â dysgwyr. Nhw yw'r rhai sy'n teimlo'n ddigon brwd i roi awr bob wythnos i helpu'r dysgwyr i ymarfer yr iaith. Nhw yw'r rhaisydd o ddifri mewn modd adeiladol. Dyna'r ffordd 'anffaeledig' i godi canran y siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol. Heuir hedyn a all ffrwytho.

Nid am ddiwrnod neu ddau yn unig a gorffen, ond yr wythnos nesaf eto. Dim ond sgwrsio anffurfiol gyda'i gilydd wrth yfed coffi fydd yna. Ond peidier ag ofni: yr hyn y maen nhw'n ei wneud yw rhoi help ymarferol, a dangos croeso a chyfeillgarwch. Mae'r rhain am gefnogi'r iaith yn y ffordd orau sy'n bosibl. Maen nhw am gydadeiladu

cymdeithas Gymraeg, ac yn ei gwneud ar raddfa feicrocosmig, drwy hwyl fawr o gamgymeriadau gwych.

Maen nhw'n adeiladu yn y lleoliad pwysicaf. Yma. Chwilio am gnewyllyn o grŵp bach o dri neu bedwar ar y dechrau fan hyn. Cysylltu â dosbarth y dysgwyr yn yr ardal. Lledu'r gair drwy bosteri neu lythyr yn y papur lleol. Ond allan o weithredu syml o ddyfalbarhad, fe all newid naws ardal. Mae'r gwirfoddol yn bellgyrhaeddol. Gall gynyddu'n gaseg eira. Maen nhw'n sefyll yn yr union bwynt – a chyda'r dosbarthiadau, y pwynt canolog – lle y mae'r llanw'n troi. Ac ar ôl ymroi'n llel llawer, daw'n hysbys.

Yn ail, pan fydd **proffesiynolwyr yr iaith** hwythau'n sylweddoli'r *Cynllun Cyfansawdd* a'i amrywiaeth ymarferol cydlynol, ac mor hanfodol yw eu perthynas genedlaethol â'r wedd wirfoddol, bydd gennym fudiad cadarnhaol. Bu gennym ers tro gynlluniau a memoranda rif y gwllith. Ond ni chymerwyd o ddifrif y ddolen gydiol ganolog rhwng y gwirfoddol a'r gorfodol. Drwg gennyf am yr holl *Drefn* newydd hon. Mae'n gynllun a chanddo flaenoriaethau a siâp yn y cydlyniad. Mae'n rhywbeth y gall pob un sy'n caru'r iaith gymryd rhan ynddo. Bydd y rhai, sy'n ennill bywoliaeth drwy gefnogi'r iaith, o'r diwedd yn mynnu cydlynu'n uniongyrchol gyda'r gwirfoddolwyr hyn. Ni cheir Mudiad Adfer Iaith effeithiol ond pan gaiff ei sefydlu yn gnewyll drwy'r wlad, gyda chyfleoedd i bob un person (gwirfoddol neu broffesiynol) beidio â bod ag esgus i fod y tu allan. Drwy amlhau'r gwirfoddol yr adeiledir Ewyllys. Drwy ffatri sefydlu grwpiau adennill o'r fath yn wirfoddol ymhlith y bobl, ochr yn ochr â'r ysgolion a'r Colegau, a thrwy dyfu ymwybod o fudiad amlochrog, yr adeiledir morâl ac arweiniad o fewn fframwaith proffesiynol. Ond o fewn y cyd-destun gwirfoddol hwnnw yn unig y gwerthfawrogir hefyd yn llawn yr hyn a wna'r Comisiynydd, Asiantaeth yr Iaith, byd yr 'hawliau', ac yn anad dim y dosbarthiadau. Hynny yw, bydd gennym Gynllun Cyfansawdd cydlynol o amaturwyr a phroffesiynolwyr, yn cydweithredu â'i gilydd. Os oes bai yn awr, mae'r bai ar bawb.

Ond **yn drydydd**, mae angen **adnoddau a rhannu gwybodaeth genedlaethol**. Dyma gyfrifoldeb i gynrychiolwyr o bob plaid yn y Senedd (a'r Comisiynydd) sefydlu *Canolfan Ymchwil o'r iawn ryw*. Dyma gyfle call o'r diwedd i'r gwleidyddion. Mae mawr

angen cnewyllyn bychan o Ymchwilwyr i wella dulliau hysbysebu a moderneiddio hyd byth adnoddau gwersi a darllen i'r dosbarthiadau. Dylid cael '*Fforwm cenedlaethol*' agored hefyd i bawb yn eu sgil gyfarfod i'r tri sector hyn gyd-drafod yn flynyddol yn dryloyw, wedi'i drefnu gan Bwyllgor Pabell y Dysgwyr o bosib. Ceir cyfle cyfundrefnus i rannu barn a phrofiad yno, ac ateb y cwestiwn bythol blynyddol – Sut mae gwella?

Ond ni all grwpiau lleol effeithiol gael eu sefydlu heb fod gweledigaeth genedlaethol am batrwm cenedlaethol cyfan. Ni chyflawnir hynny heb ewyllys weithredol y bobl o fewn tri phrawf – y gwirfoddol, y proffesiynol, a'r technegol. A hynny am y tro cyntaf erioed.

VI

GELYNION Y GWIRFODDOL

Na thybier y bydd hyn yn hawdd. Na thybier bod hyn mor gwbl amlwg, fel y byddant yn ei sefydlu dros nos.

Ceisiwyd amlinellu Cynllun cwbl ymarferol, nas ceisiwyd o ddifri o'r blaen, i adennill yr iaith Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

Beth sydd wedi rhwystro Adennill yr Iaith yn awr os yw'r Ateb Cadarnhaol hwn mor amlwg? At ei gilydd, ysywaeth, erys y lleiafrif brwd o Gymry Cymraeg ymwybodol yn ddigyfeiriad. Ac arhosant mewn siom yn awr wrth wynebu realiti dirywiad cyflym.

Ar hyn o bryd, mae codi gwaith gwirfoddol adeiladol o fewn cyrraedd pawb ar gael o'n blaen. Beth a wna oedolion o Gymry brwd yn awr i ddenu mewnfudwyr brwd a brodorion o ddysgwyr i sgysio? Ble mae'r ymgais yn ein hardaloedd ni i groesawu'r dysgwyr allan o'r dosbarthiadau i'r coffi a sgwrs?

Ble mae'r atalfa i hyn oll?

Beth fyddai'r ymateb anochel cywir gan y siaradwyr Cymraeg? Dim ond diwylliant protest sydd wedi cydio hyd yn hyn – , achwyn nad oes digon o arian, ceintachan nad yw'r llywodraeth ddim yn cael deddf arall eto fyth, cosbi pobl sydd heb eu magu yn yr iaith, beio pobl am beidio â defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus. Yr un hen gân. Beth ddisgwylicch mewn amgylchiadau o ganlyniad ond gostwng yn y Cyfrifiad?

Os yw'r ateb adeiladol yn dechrau'n lleol, pam yr holl ffwdan ynghylch beio pobl eraill, yr awdurdodau a'u gohebiaeth uniaith, yr arwyddion yn y siopau, a chael iaith Gymraeg swyddogol yn y Cyngor Lleol? Pethau canmoliaethus i gyd. A chywir i gyd. Ond heb y flaenoriaeth o ymgyrchu'n adferol ein hunain, ble mae'r galon i'r symudiad?

Os yw'r gohebydd radio anochel yn ymweld â'r Ysgolion Uwchradd Cymraeg i holi faint o frwdfrydedd sydd gan y plant ynglŷn â'r iaith sydd ganddynt, y cwestiwn yn y gymdeithas o'u cwmpas yw 'ble mae'r awdurdodau' wedi bod? Ond y cwestiwn ddylai fod – 'faint o frwdfrydedd ymarferol sydd gan eu rhieni?' A allech feio'r plant, unwaith eto?

Faint o ymddiddan a wna'u rhieni (cyn belled ag y gŵyr y plant) â dysgwyr o oedolion? Ble mae'u mudiad gwirfoddol hwy erbyn hyn? Dyna'r galon, o raid, i fudiad fel hyn.

Gall y Cyfrifiad ddangos calondid efallai yn yr adroddiad swyddogol fod yna gynnydd ymhlith plant ysgol. Ond a erys y cynnydd yna ar ôl mynd allan o'r ysgol i'r byd mawr? Ceidwadwyr a chydymffurfwyr yw plant dan fwgwd tew o wrthryfela ofnus.

Pam yr ydym yn chwilio yn y lleoedd anghywir am yr ateb amlwg eto fyth inni gynyddu'n uniongyrchol? Dim ond yn y wedd *anuniongyrchol* yr ydys yn dal i ymdroi, ac felly yn y lleoedd anghywir. Dim ond er mwyn symud cyfrifoldeb oddi wrthym ni ein hun. Y Cymry Cymraeg brwd – yr oedolion – sy'n nogio nawr ac a fu'n nogio erioed. Ganddynt hwy, ysywaeth, rhaid cael protest a chynhadledd a statws a pholisi-heb-ei-weithredu o hyd. Ble y gwelsoch *arweinwyr* y mudiad iaith yn gwirfoddoli i helpu dysgwyr mewn oed? A gallasent, yn lle'r fath osgoi, yr wythnos hon, weithredu. Nid chwarae plant yw hyn. Pe bai'n rhwyddach byddem yn saff erbyn heddiw.

Ond mater yw o adeiladu ewyllys gwlad, yn ddygn, ac yn ddyfal-barhaol, yn y ffordd fwyaf addas, heb sŵn cyhoeddus efallai, ond yn effeithiol bob tro. Mae'r meysydd yn gweiddi am gynhaeaf. Chwiliwch hyd nes y cewch.

Negyddiaeth a Dianc fu'r pennaf gelynyon i Adennill Lleol a Chenedlaethol. Beth sydd wedi tampio'r Mudiad Sefydlu Ysgolion Cymraeg Newydd? Diffyg ymrwymiad lleol? Diffyg sôn yn y gymuned? Pesimistiaeth ymarferol a cholli morâl? Ie; yn ogystal â'n diffyg myfyrdod ni. Israddoldeb piau hi, ac amharodrwydd i ricriwtio canghennau lleol gyda'r Cymry Cymraeg yn gwneud rhywbeth yn uniongyrchol? Ie, ie; ond gellir eu newid o'r brig i'r bôn. Byddai targed o 60 o ganghennau oedolion newydd y flwyddyn gyntaf, 60 yr ail flwyddyn, ac ymlaen nes bod rhyw 500 gyda ni i ddylanwadu'n uchelgeisiol ar y gyfundrefn addysg oll, yn danddaearol ac ar wyneb y ddaear. Gyda phenderfyniad, gallai caredigion yr iaith greu mudiad tawel treiddgar cyson o'r fath i'r genedl, a throi'r llif yn awr. Mae'r Gwirfoddol bob amser yn orfodol i lwyddiant. A'r Osgöwyr yn unig yw'r gelynyon.

VII

CADW PERYGLUS

Yr wyf wedi ceisio enwi'r bwganod sy'n lladd yr Iaith.

Y Cefnogwyr yw'r bwganod.

Yn gyntaf, y diwylliant protest, sef trosglwyddo'r cyfrifoldeb, a llenwi'r meddylfryd â beio. O fewn y gwaith pwysig hwnnw y maent weithiau'n llwyddo.

Yn ail, fel y dywedodd pennawd mawr yn y *Cymro* yn ddiweddar: ***Cronfa Fawr i Achub yr Iaith***. Pres o hyd heb wirfoddoli, dyma'r ateb tybiedig a hynod beryglus. Eistedd o'r neilltu a datrys yr argyfwng ag arian 'rhywun'. Mae arian yn help. Ond nid yw'n adennill yr iaith. Na rowch eich wyau i gyd yn yr un fased hon.

Yn drydydd, Gweithredu Symbolaidd. Mae hyn yn symboleiddio help. Mae'n troi 'gwneud' yn 'symbol'.

Yn bedwerydd, Cadw! Cadw! Dyma, o leiaf, nod amlwg, sydd yn well na 'diniwed', ac sy'n gwneud rhywbeth adeiladol, ond nid yw'n adennill yr iaith. Wrth gwrs fod Cadw'n hanfodol, ond nid ar draul Adennill uniongyrchol, personol, ewyllysgar. Ennill cyfrifol yn unig sy'n adennill yn gyfrifol. Dyna'r gwir gadw.

'Ei chadw' fu uchelgais y Cymry confensiynol cadarnhaol oll erioed, hyd yn ddiweddar. Hyd yn oed ar ôl y Cyfrifiad diwethaf, daliwyd ati i deimlo mai 'cadw' oedd yr her. Cadw, cadw, eto fyth, a chwarae ostris. Ac wrth gwrs, os gallwn wthio'r broblem ar y plant i'w chadw, gorau i gyd.

A pha beth yr oedd pawb i fod i'w gadw? Wel, Cymru wrth gwrs, 'fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid *a fu*.'

Cymru gelwyddog yw honno, fel y gwyddom oll. Allwn ni ddim cadw Cymru fel y bu, hyd yn oed pe bai'n ddymunol. Yn wir, mae rhai bygythion yn mynd i gynyddu'n fuan. Gŵyr y rhelyw y bydd cynnydd aruthrol o fewnfudwyr cyn bo hir o ddwyrain Ewrob ac o'r cenedloedd Islamaidd fel y bydd yn rhaid i'r hen Gymru newid yn

ddirfawr. Deil mewnfudwyr ffyddlon i ymddeol fesul mil o'r gweddill o Brydain gan ddal i newid y byd yn ein parthau gwledig. Bydd yr hen gymhleth israddoldeb yn dal i wneud ei waith oesol cywilyddus, a phriodasau cymysg yn dal i chwynnu teuluoedd 'naturiol Gymraeg.'

Hoffem 'gadw' orau y gallwn, heb siglo'r bad, meddan nhw i mi.

Yr wyf wedi ceisio amlinellu cyflwr amgen lle y mae'r genedl (yn barhaol mwyach) yn wlad *enillol ewyllysgar* o ran strwythur. Tra byddom ar dir y byw mwyach, os ydym am fod yn Gymru fyw fodern iach ein diwylliant, mae eisiau cynllunio ar gyfer adennill parhaol. Nid patsio tyllau. Ond sefydlu cynllun datblygol cryf sy'n unplyg, ac yn cadw llygad ar nod. A'r nod yw sicrhau bod gennym bob amser fwyafrif sy'n **ewyllysio ac yn rhaglennu'r polisi (a'r ymarfer) i adennill yn ddi-baid**....Sefyllfa barhaol: newid iach. Peidiwch ag ymddiried mewn Cadw.

Nid yw pobl yn hoffi'r syniad hwn ar hyn o bryd, yn arbennig pobl mewn awdurdod. Gwell gan y Cymry brwd gael llonydd yn y cyfeiriad anghysurus yma.

Mi gredaf i fod rhywbeth anochel iach ynglŷn â'r sefyllfa o adennill yn ddiflwyn ar dafod. Mae'n Gymru gyffrous, gadarnhaol, adeiladol. Wrth gwrs ei bod yn her sy'n ddyfodol diymatal.

Hoffwn adrodd un gyffelybiaeth a adroddodd yr Athro W.F. Mackey wrthyf pan oeddwn yn cydweithio ag ef am gyfnod hir yn Québec. Yr Athro Mackey, ar y pryd, oedd prif awdurdod y byd ar Ddidacteg Iaith. A thrafod y buom un bore sut yr oedd athro dosbarth i fod i ddelio â 'gwallau iaith' ar sail cyfarwyddyd proffesiynol.

'Dwi'n meddwl,' meddai ef, 'y dylem yn y paratodau ymlaen llaw ystyried gwallau'n debyg i salwch. Wrth i ymchwilyr eu casglu, yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn gyntaf yw diagnosis fel meddyg. Rhaid sylwi ar y symptomau, sylwi pa bryd y mae'r gwall yn digwydd, a phle? Mae'r corff dynol meddyliol yn gyfanwaith. Sut y mae'r gwallau'n perthyn i'w gilydd? Sylwer sut mewn meddyginiaeth y mae'r aelodau oll yn cydweithio, a oes amhurdeb yn y gwaed, a oes esgyrn ieithyddol wedi'u torri? Beth

wedyn yw'r ymarferion cyfadferol trefnus a allai ystwytho ac iacháu'r symudiadau? Mae yna drefn i iacháu'r iaith. A rhaid i'r drefn honno gael ei chorffori o fewn y paratodau.'

Gallwn gael iachâd holistig. Ond rhaid inni ganolbwyntio'n benodol ar yr union bwyntiau gwan lle y mae angen yr ymarferion cyfadferol. Y cam allweddol ar hyn o bryd i'r wlad yw troi'r Cymry brwd sydd wrthi nawr yn gwastraffu amser ar therapi ieithyddol eilbwys. Rhodder ein bryd ar ganol y broblem. Nid ar ddrygau bach cymharol amherthnasol i'r canol, am eu bod yn haws i'w trin gan wleidyddion Ac nid dilyn dulliau iacháu y gorffennol oherwydd mai dyna'r unig rai yr ydym yn gwybod amdanynt. Mae angen i hyn oll gael ei gorffori o fewn adeiladu'r corff ieithyddol yn ddatblygol o'r newydd.

Wynebwn ganol angenrheidiol y broblem. Ym mhob maes sy'n gofyn cynnydd a gwelliant cyson, rhaid cael Ymchwil berthnasol, Offer, Dulliau profedig, a Gwir Fyfyrio. Yn y pen draw, adennill uniongyrchol gwirfoddol gan bawb posibl yw'r unig gadw arhosol sy'n gweithio.

VIII

YR OSGOI MAWR

Dwi'n tynnu i ben mewn math o ddistawrwydd. Tybed a fu rhywun yn gwrando? Gall fod yn egwyl i feddwl.

Peidiwch â thybied nad oes dim ymateb wedi bod i'r syniad hwn am wirfoddolwyr o Gymry Cymraeg yn cael coffi a sgwrs gyda'r Dysgwyr.

Gofynnwch i Asiantaeth yr Iaith ynghylch eu hymateb hwy. Gofynnwch i'r Comisiynydd Iaith. Gofynnwch i Gymdeithas yr Iaith. Dywedir wrthyf nad ydynt hwy wedi beirniadu'r syniad yn gyhoeddus, rhag ofn y bydd rhywun yn holi faint o sgwrsio â dysgwyr y maent hwy yn bersonol yn mynd i'w wneud. Wel, dyna fath o ymateb. Maent hwy wedi ymrwymo wrth cul-de-sac Statws. Osgoi yw'r ymateb huawdl.

Ewch i Brifysgol gyfleus gerllaw, a holwch ddysgwyr yn Adran y Gymraeg yno faint o gymorth a estynnai'r myfyrwyr Cymraeg brodorol iddynt. Hwy yw'r hen brotestwyr gynt. Fe'u gwelwyd hwy yn rhy aml gan y dysgwyr dros y blynyddoedd fel amharodwyr i gyd-siarad o gwbl. Taw piau hi. Mae hynny'n fath o ymateb.

Soniais am y grŵp y gwelais lun ohonynt y tu allan i Gyngor Sir Gaerfyrddin yn cyhoeddi 'Mae angen mwy na siarad mewn argyfwng.' Protest arferol oedd hi, wrth gwrs, yn ceisio gofyn i bobl eraill weithredu, ac i basio cyfrifoldeb i eraill yn ôl yr hen arfer i ryw 'awdurdod' neu'i gilydd; sef y bobl olaf i ofyn iddynt. Ond gofynnwch i'r union brotestwyr hyn 'pam na ddechreuwch chithau drwy *siarad* mewn grwpiau trefnus gyda'r dysgwyr?' A gofynnwch yr un pryd am y mater i'r llu o swyddogion cyflogedig sy'n ymwneud â pholisi gan y Sefydliad Iaith yng Nghymru. Os gofynnwch ymhle y rhoddwyd ganddynt hwy hyd yn hyn ystyriaeth ymarferol a chefnogol bersonol i'r *sector gwirfoddol*, rhedant fel y gwynt. Ofni y maent y byddwch yn gofyn iddynt ble y maent hwy wrthi'n gwirfoddoli.

Os gofynnwch i'r llunwyr polisi cenedlaethol hefyd, ble y gall y 'Ganolfan Ymchwil' fod i baratoi cyrsiau a deunyddiau manwl yn lle'r synnwyr bawd presennol,

rhedant yn gyflymach byth. Gosodasant ar y blaen anwybodaeth ronc ynghylch graddio a didacteg, a diffyg clem ynghylch twf iaith, ac amharodrwydd tân-siafins gan lunwyr cyrsiau i ddisgrifio sut y cynlluniwyd y rheini'n wyddonol. Coleddant 'anwybodaeth i bobl y byd' – rhag ofn y gofynnir iddynt ble a sut y cawsant hwy oll eu hyfforddi. Atebant yn ffraeth: 'Mae gennyf gymaint o glem â'r dyn nesaf.' 'Dim ond ychydig o feddwl sydd eisiau.' Hyrwyddir anarchiaeth ddifyr y cyfryngau. Anrhydeddwyd ni felly gan yr Osgoi Mawr.

Do: fe gafwyd ymateb i'r Cynllun.

Ryw ddiwrnod pan wneir ymchwil hanesyddol ar dranc yr iaith, ac yr holir pwy oedd yn wrthwynebwyd uniongyrchol i'r sector gwirfoddol, fe synnir cymaint o fai sydd ar ambell Gymro go adnabyddus yn yr uchelfannau. Safodd sawl un mewn awdurdod yn erbyn hyrwyddo'r Sector Gwirfoddol yn ymarferol. Ni raid eu rhegi 'fel Maer Caerfyrddin ar Riw Allt Walis'. Gymaint gwell pe baent yn newid mewn pryd.

Dichon fod protest a statws a 'chadw' ar un adeg wedi haeddu bod ar flaen ein cad (er nas credaf). Bellach aeth y cyfnod hwnnw o flaenoriaeth i'r hiraeth anymarferol yn wywedig gerbron her sy'n gliriach. Wrth gwrs fod angen 'cadw', ond nid ar draul adennill. Ac y mae'n bryd sylweddoli dyletswydd ac undod pawb.

O leiaf, – dychryn annwyl, – os bydd cynllun gwirfoddol ac adennill uniongyrchol ar lefel boblogaidd yn cael eu gweithredu, gellir gwarantu y byddant yn gweithio.

Cofion Cynnes,

Bobi